

ROBERTS, MORRIS ('Morris ap Robert '; bu farw, meddir, yn 1723), bardd gwlad a saer

Enw: Morris Roberts
Ffugenw: Morris ap Robert
Dyddiad marw: 1723
Plentyn: Margaret Evans (née Roberts)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd gwlad a saer
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Barddoniaeth
Awdur: Ray Looker

o Dynllidiart, Llanuwchllyn, a fu wedyn yn byw yn y Bala. Annibynnwr oedd ef, a merch iddo oedd gwraig y cyngorwr Methodistiaidd **John Evans** o'r Bala. Cofnodwyd nifer o hanesion amdano, ac yn enwedig am ei dduwioldeb, yn *Y Brython* (Tremadog), *Y Gwyliedydd*, *Llyfryddiaeth y Cymry*, a *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*. Cadwyd enghreifftiau o'i farddoniaeth, yn ganu caeth a rhydd, mewn llawysgrifau; yn eu plith ceir cywydd ar Ddydd y Farn, cywydd i Lyn Tegid, englynion crefyddol, ac englynion ymddiddan rhyngddo a Richard John Jenkin. Cadwyd hefyd nifer o'i ganeuon rhydd, y mwyafrif ar destunau crefyddol a moesol; ceir chwech ohonynt yn *Blodeugerdd Cymry*. Argraffwyd peth o'i waith gan **O. M. Edwards** yn *Beirdd y Berwyn* a *Beirdd y Bala* (Cyfres y Fil). Argraffwyd yn Nhrefeca yn 1793, flynyddoedd lawer wedi ei farw, gan **William Thomas**, gweinidog yr Annibynwyr yn y Bala, draethawd crefyddol o'i waith, *Cyngor i'r Cymry mewn Deuddeg o Bennodau*.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Cardiff Manuscript 64

Archifau LIGC: Cwrtmawr MS 128A, Cwrtmawr MS 216B, Cwrtmawr MS 222D, Cwrtmawr MS 225B, Cwrtmawr MS 226B, Cwrtmawr MS 230B, Cwrtmawr MS 448A, Cwrtmawr MS 463D

Llawysgrifau Plas Nantglyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 3

NLW MSS 432, 436, 559, 645, 700, 783, 1238, 1287, 4697, 4971, 6146, 6882, 7892, 10252, 14402

Swansea Manuscript 2

Morris ap Robert, *Cyngor i'r Cymry mewn deuddeg o bennodau* 1. Am y Gorchymynion, 2. Am yr addewidion, 3. Am Alwedigaeth, 4. Am anufudd-dod, 5. Am y bygythion, 6. Am amynedd Duw, 7. Am ddigofaint Duw, 8. Am gofio Gair Duw, 9. Yr amser y dylid ei gofio, 10. Y hudd o'i gofio, 11. Y perygl o beidio, 12. Cymhwysiad â€{ ynghyd Â€{ rhai caniadau o waith yr awdwr (Trefecca 1793)

David Jones, *Blodeu-Gerdd Cymry* (Mwythig 1779), 96, 175, 438, 453, 472, 474

Y *Brython*, 1860, 265, 270

Y *Gwyliedydd*, 1823, 273

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869), 1869, 674

T. Rees, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 401

O. M. Edwards, *Beirdd y Berwyn, 1700-1750* (Llanuwchllyn 1903?), 9-24

Beirdd y Bala (1911), 9

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 73729314

Wikidata: Q20804740

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government